


LLAIS

Dathlu Diwylliant y Cwm a chofio Dafydd Rowlands

Ychydig cyn y Nadolig 2013 yn ystod cyfarfod misol Cylch Cinio Cwmtawe tynnwyd sylw yr aelodau nad oedd unrhyw achlysur wedi ei drefnu yng Nghwmtawe i gydnabod cyfraniad y diweddar Brifardd a chyn Archdderwydd Cymru, Dafydd Rowlands, i fywyd llenyddol Cymru ac i'r Gymraeg. Yn athro ac yn ddarlithydd yn y Gymraeg, llenor, awdur sgriptiau a bardd, fe enillodd Dafydd Rowlands y Goron a'r Fedal Ryddiaith a bu'n Archdderwydd o 1996 i 1999. Fel brodor o Bontardawe fe deimlodd yr aelodau y dylid trefnu a chynnal cyfarfod i gydnabod cyfraniad Dafydd, a hynny ym Mhontardawe. Fe fu Dafydd yn Llywydd y Cylch Cinio nôl yn 1979, ac roedd hefyd yn un o sylfaenwyr y papur hwn.

Aethpwyd ati i ffurfio Is-bwyllgor o gynrychiolwyr o'r Cylch Cinio a'r Llais a phenderfynwyd sefydlu **Cronfa Goffa Dafydd** gyda'r bwriad o gynnal gweithgareddau yn flynyddol, a sefydlu cronfa a allai gynnig gwobrau ar gyfer myfyrwyr y Gymraeg yn ysgolion uwchradd yr ardal wrth baratoi ar gyfer Addysg Coleg.

Ar nos Wener, Mai 2, 2014 yng Nghanolfan y Celfyddydau, Stryd Herbert, Pontardawe, bydd cyfeillion agos Dafydd megis y **Prifardd a'r Cyn-Archdderwydd Meirion Evans**, gynt o Felindre a fu'n gyddisgybl gyda Dafydd yn Ysgol Ramadeg Pontardawe a **Tegwyn Jones**, Aberystwyth, arbenigwr y Tribannau a Limrigau yn hel atgofion am eu cyfeillgarwch a Dafydd. Bydd un o actoresau blaenllaw Cymru **Rhian Morgan** ynghyd



Dafydd Rowlands

ag wyresau Dafydd: **Sioned a Sara** yn cyflwyno detholiad o'i waith.

Yn ogystal bydd côr ieuenctid **Trwr Tawe** o dan gyfarwyddyd Elfair Jones yn cyflwyno ar gân eu teyrnged hwythau.

Roedd Dafydd hefyd yn enwog am ei waith sgriptio gyda'r gyfres boblogaidd **Licoris Olsorts**, ac fe fydd Rhian Morgan, un o'r cast yn cyflwyno un o'r ffilmiau a fydd yn siwr yn ddifyrrwch mawr. Bydd **Dilwyn Jones** a fu'n cydweithio gyda Dafydd wrth gynhyrchu'r ffilmiau yma yn cyflwyno ei atgofion yntau.



Rhian Morgan, un o sêr Licoris Olsorts



Bydd cyfle i weld un o berlau Licoris Olsorts ar nos Wener, Mai 2, 2014, yng Nghanolfan y Celfyddydau, Pontardawe, sef Bodi Lein a Gwglis - y gem griced enwog pan ymddangosodd Gary Sobers ar gae criced Ystalyfera.

Bydd cyfle i'r gynulleidfa brynu printiadau o waith Dafydd wedi eu llythrennu'n gain a chelfydd gan Tegwyn Jones, ac hefyd gyfrannu i Gronfa Goffa Dafydd a sefydlir yn ystod y noson. Bwriedir cynnig gwobrau neu ysgoloriaeth i fyfyrwyr yn yr ysgolion uwchradd a'u bryd ar astudio'r Gymraeg yn y Brifysgol. Os na ellwch fod yn bresennol yn y cyfarfod agoriadol ac yn awyddus i gyfrannu at y Gronfa, cysyllter a'r Trysorydd,

Huw Bowen, Nant yr Arian, 4 Waverley Close, Clydach, Abertawe am fanylion. (01792 842102)

Llais

Mae stormydd y gaeaf wedi taro Cwm Tawe fel pob rhan o Gymru. Rydym ni gyd wedi colli cwsgr yn sgil swm y gwynt a'r cesair yn tasgu ar ein ffenestri, a nifer wedi colli'r cyflenwad trydan, colli teils o'r to a choed o'r ardd. Ac er ein bod ni nawr yn croesawu'r cennin pedr ac yn hyderus bod y gwaethaf drosodd wrth i'r Gwanwyn gyrraedd, nid oes pall ar y stormydd ariannol sy'n dal i ruo drwy'n cymunedau.

Mae'r tri chynghor sy'n gwasanaethu pentrefi a threfi Cwm Tawe angen torri degau o filiynau o bunnau o'u cyllidebau. Mae adroddiad Comisiwn Williams i wasanaethau cyhoeddus wedi awgrymu torri nifer y cynghorau yng Nghymru yn hanner er mwyn ceisio cyflawni hyn, ond mae'n ymddangos y bydd yn flynyddoedd eto cyn bydd modd gweithredu cynllun o'r fath. Ac felly wrth geisio torri'r got yn ôl y brethyn, mae'n cynghorau wedi cyhoeddi cynlluniau a fydd yn cael effaith andwyol ar ddyfodol ein Cwm. Maent am gau nifer o lyfrgelloedd - mae rhai Cwmllynfell, Gwaun Cae Gurwen, ac Ystalyfera ymhlith y rhai sydd dan y fwyell. Bydd disgyblion chweched dosbarth bellach yn gorfod talu i deithio i'r ysgol a bydd cyllid ar gyfer llyfdd mewn ysgolion ar gyfer plant oedran meithrin yn cael ei dorri.

Mae'r Cwm hwn yn gyfarwydd â chyni economaidd. Ers degawdau mae gwaith yn brin, busnesau wedi cau, pobl ifanc wedi gorfod gadael. Ond os ydym am wella'n sefyllfa rhaid ceisio creu swyddi, creu cyfleon, a chreu cyfoeth. Ateb ein cynghorau yw torri cyfleusterau fel llyfrgelloedd, a chyfyngu mynediad i addysg. Mae'r rhain yn gamau a fydd yn gwaethgu'r argyfwng sy'n ein hwynebu nid ei wella. Mae llyfrgelloedd yn annog darllen a dysgu (a'r dyddiau yma hefyd yn rhoi mynediad hanfodol i bobl i gyfrifiaduron.) Yng nghanol dirwasgiad enbyd 20au a 30au y ganrif ddiwetha, roedd ein cyndadau yn deall sut i frwydro yn erbyn tlodi ac roedd agor llyfrgelloedd a sicrhau addysg gyflawn i'w plant yn rhan bwysig o hynny.

Mae yna ddewisiadau anodd i'w gwneud, ond rhaid gwneud y dewisiadau iawn os am atal cylch dieflig a fydd yn amddifadu trigolion y Cwm hwn rhag dyfodol mwy llewyrchus.

Sioned Williams

Golygydd mis Ebrill

Dewi Myrddin Hughes

Newyddion i'r canlynol os gwelwch yn dda:

Anita Humphreys

**Castell Newydd, Heol Aman, Brynman, Rhydaman, SA18 1SN
neu e-bost arfryn@freenetname.co.uk**

Erbyn Chwefror 20fed 2014 os gwelwch yn dda.

Y Llais yn Trydar ac a'r We

Dilynwch y Llais ar Twitter a'r We

Chwiliwch am @PapurBroLlais ac fe gewch y newyddion diweddaraf o Gwm Tawe, hanes digwyddiadau yn yr ardal a gwybodaeth am y papur bro ei hun. Croeso i chi hefyd rannu eich newyddion gyda'r Llais fel y gallwn ei drydar i Gymru a'r byd!

Mae gan y Llais wefan lle dangosir hen rifynnau. Teipiwch Llais Cwmtawe yn y peiriant chwilio.

**Ariennir Llais yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru**

POBOL Y CWM

Hefin Jones

Mae Hefin Jones newydd gael ei benodi yn Weithiwr Cristnogol yng Nghwm Tawe, ac wedi cael croeso mawr gan eglwysi'r Cwm ar ôl dychwelyd i'r ardal wedi cyfnod hir yn byw tramor.

Cafodd Hefin ei fagu ym Mhontarddulais gan ei rieni Llew a Marie Lynne Jones ond bu Cwm Tawe yn agos at ei galon erioed a'i dad yn dod o Glydach.

Ar ôl mynychu Ysgol Gynradd Gymraeg Bryniago ym Mhontarddulais ac Ysgol Gyfun Gŵyr aeth i Brifysgol Aberystwyth i astudio Hanes a Hanes Cymru.

Ar ôl gadael y coleg treuliodd flwyddyn yn Ne Affrica a De'r India yn gwneud cwrs hyfforddiant cenhadol i ieuencid. Bu hefyd yn byw yn yr Aifft am ddwy flynedd yn gwneud gwaith Cristnogol yno. Bu'n hyfforddi pêl-droed i blant ac ieuencid difreintiedig o gefndir Cristnogol, dysgu Saesneg ac astudio Arabeg.

Yn ddiweddar bu Hefin yn byw ym Mrasil am dair mlynedd - gan gwrdd â'i wraig a phriodi allan yno. Bu'n dysgu Saesneg mewn nifer o ysgolion iaith ym Mrasil yn ogystal â dysgu Saesneg i genhadon dan hyfforddiant. Ganwyd mab i Hefin a'i wraig ym Mrasil, Steffan.



Pam dychwelyd i Gwm Tawe wedi blynyddoedd o grwydro'r byd felly? "Penderfynon ni ddod yn ôl nawr gan ein bod ni wedi cytuno cyn i ni briodi y bydden ni'n dychwelyd fan hyn ar ôl cyfnod ac roedd y ddau ohonom ni yn teimlo fod Duw yn ein harwain ni i ddod yn ôl yma ar yr adeg yma," meddai Hefin.

"Rhai o'r prif resymau am ddod yn ôl oedd rhoi cyfle i fy ngwraig i ddeall mwy am y diwylliant yma, ac i ddysgu Cymraeg, ac am ein bod am addysgu ein mab yma."

Teimlais fod y swydd yma yn ddelfrydol gan fy mod i'n dwli gweithio gyda phlant ac ieuencid ac annog eglwysi lleol i estyn allan gyda chariad Crist i'w cymunedau."

Prif amcanion swydd Hefin yw dechrau gweithgarwch newydd ymlith plant, ieuencid a theuluoedd capeli'r prosiect yng Nghwm Tawe, gan ddatblygu perthynas gydag ysgolion y Cwm ac i gynorthwyo'r capeli i ddod o hyd i ddulliau newydd o estyn allan i'w cymunedau.

Mae'n gweithio'n agos gyda thri chapel Presbyteraidd Cwm Tawe, sef Soar Pontardawe, Tabernacl Ystradgynlais a Chapel Brynlllynfell, Cwmllynfell.

Yn ogystal â'i brofiad dramor mae Hefin wedi gweithio gyda phlant ac ieuencid yng Nghwm Gwendraeth gan redeg clybiau Cristnogol yno a chymryd oedfaeon teuluol a gwasanaethau mewn ysgolion.

Dywed Hefin bod Cwm Tawe yn bwysig iddo am iddo dreulio llawer o oriau melys iawn yma yn ymweld â'i deulu fel plentyn. "Rwy'n hoff iawn o bobol y Cwm yma" meddai, "Mae nhw wastad mor gyfeillgar a chroesawgar!"

CORNEL NATUR

Dewi Lewis

GWYNT, GWYNT, GWYNT!

“Chwyth, aeafwynt, fel y mynnot-
Cryn fy ffenestr a fy nôr;
Plyg y deri fel mieri-
Dyro ddawns i longau'r môr;”

Dyna sut y canodd Eifion Wyn yn ei delyneg i fis Chwefror. Rhaid cyfaddef mai dyna'n union a deimlais yn ystod mis Chwefror eleni. Yr hyn oedd yn taro dyn oedd nid yn unig gryfder y gwynt ond amlder y gwyntoedd cryf. Prin bod amser i anaflu nes bod storm arall o wynt yn chwipio i mewn o'r gorllewin. Gwelwyd effaith y gwynt ym mhob ardal yng Nghymru. Yn Aberdaron cofnodwyd gwyntoedd o 108 milltir yr awr a 95 milltir yr awr yn y Mwmbwls. Golygodd hyn bod sawl ardal heb gyflenwad trydan am rai dyddiau. Ardaloedd ar hyd yr arfordir sydd wedi dioddef waethaf gyda difrod sylweddol i adeiladau ac hefyd i ambell i “Brom”. Bu nerth y gwynt a rhuthr y môr yn drech nag amddiffynfeydd llifogydd mewn sawl man. Effaith hyn i gyd yw fod yr arfordir wedi ei erydu yn ddifrifol. Collwyd twyni tywod mewn rhai ardaloedd tra bo clogwyni wedi cwmpo i'r dyfnder mewn ardaloedd eraill. Roedd un arbenigwr yn amcangyfrif bod saith mlynedd o erydu wedi digwydd yn ystod dau fis cyntaf 2014.

Er y difrod ar hyd yr arfordir fe ddatgelodd nerth y gwynt a'r môr olygfeydd rhyfeddol hefyd. O ganlyniad i olchi tywod ymaith yn y Borth (i'r gogledd o Aberystwyth) daeth olion coedwig cyn-oesol i'r golwg. Mae'n wybyddus eisioes bod olion coedwig o'r fath yno ond roedd hi'n rhyfeddol gweld cymaint o hen foncyffion wedi dod i'r golwg. Esgorodd y fath olygfa ar drafodaeth unwaith eto am deyrnas golledig Cantre'r Gwaelod.

A symud i mewn i'r tir mae'n amlwg mai ein coed presennol sydd wedi dioddef yn enbyd o ganlyniad i'r gwyntoedd. Chydig ddyddiau wedi'r storm gryfaf euthum ar gefn beic o gwmpas yr ardal. Roedd coed i'w gweld ar y llawr ymhob ardal. Rhai bach, rhai mawr, rhai bythol-wyrdd rhai coll ddail. Ar hyd y llwybr beicio roedd sawl coeden wedi disgyn ar draws y llwybr gan orfodi beicwyr i ddringo dros foncyff a brigau i barhau â'r daith. Yr olygfa fwyaf trawiadol oedd honno ger Parc Coed Gwilym, Clydach. Yno roedd dwy goeden pîn enfawr wedi disgyn ar draws y llwybr ac i mewn i'r gamlas. Roedd hi'n rhyfeddol na chwmpodd y coed i'r cyfeiriad arall neu mi fyddai'r ganolfan groeso wedi ei dymchwel yn llwyr. Fe lwyddodd cerfluniau o enwogion y penref oroesi'r digwyddiad hefyd.



O graffu yn ofalus ar yr olygfa roedd hi'n rhyfeddol meddwl bod nerth y gwynt yn gallu dymchwel boncyffion mor gryf. Ond wedi dweud hynny roedd na hefyd gyfle i astudio system wreiddiau y coed. Mewn cymhariaeth â gweddill y goeden system digon bach oedd i'r gwreiddiau. Mae'r rhan fwyaf o dyfiant ar goed pîn ar ben uchaf y coed gan greu system anghytwys ac felly eu gwneud yn fwy tueddol o gael eu difrodi gan wyntoedd cryf. Yn ogystal â maint y gwreiddiau, roedd natur y gwreiddiau yn ffactor bwysig yng nghwmpas y coed. System wreiddiau yn agos i'r wyneb oedd iddynt ac yn amlwg nad oedd yr angor yn ddigon cryf i'w cadw ar eu traed.

Does wybod a ydym wedi gweld diwedd y cyfnod stormus am y tro - mae un peth yn sicr fy mod i wedi hen flino ar yr holl wynt.

• Cerdd • Cerdd • Cerdd •

DEWI SANT

Pa werth yw'r sant na throedia faes y gad
A medi cyrff gelynyon megis cawr?
Oherwydd dyna fesur ein mawrhad
Wrth bwysio eilun yn y glorian fawr.

Ni laddodd Dewi neb, na chodi cledd,
Ni thaflodd wayw-ffon na gwanu gŵr
Â dagr, nid oedd ganddo gri ond heddd,
Ac ni fu'n arwain cyrch ar gaer na thŵr.

Sut bu i'r llipryn, felly, yn ei ddydd
Feddiannu bryd y Cymro, – fel yr ha'
Sy'n hawlio'r cwm a'i holl encilion cudd,
A thywys cenedl tua'r dolydd da?

Â chleddyf ei drugaredd concrodd hwn,
Â min y cariad sydd yn drech na'r gwn

Robot Powell

LLYTHYR

Annwyl Olygydd,

Llongyfarchiadau i Elin Havard a Chanelle Anthony o Ysgol Gyfun Ystalyfera am eu cyfraniadau gwerthfawr i rifyn diwethaf y Llais.

Peth braf oedd darllen sylwadau mor fywiog gan ddwy o ieuencid y cwm. Diddorol iawn oedd portread Chanelle o 'Ken y Gofalwr' a'i ymroddiad i'w swydd yn yr ysgol lle 'roedd cymaint o barch iddo. Ac roedd adroddiad Elin ar y difrod sy'n cael ei achosi gan ein tywydd eithafol diweddar yn ddigon i'n sobri.

Wrth i Elin adlewyrchu rhybuddion ein sefydliadau gwyddonol ynghylch effeithiau Newid Hinsawdd, fy nghobaith i yw y bydd mwy ohonom yn cytuno â'i hawgrym y dylem wneud ein rhan i leihau ar yr allyriadau carbon sy'n achosi Cynhesu Byd-eang.

Yn hynny o beth, rwyf innau'n falch i fod ymysg y rhai ledled y byd sy'n credu bod cyfrifoldeb arnom i droi at ynni adnewyddol di-garbon yn lle parhau i losgi'r glo, yr olew a'r nwy difrodol – “er mwyn sicrhau dyfodol mwy disglair i'r blaned a ninnau ei phreswylwyr.”

Gobeithio y cawn ddarllen mwy o adroddiadau yn y Llais gan ohebwy'r ifanc y fro.

Yn ddiffuant, **Hywel Davies**, *Treforys, Abertawe*

Capel y Wern

Cyngerdd Mawreddog

Nos Fawrth, 1 Ebrill, 2014

Trwr Tawe

Cerddorfa ysgolion ardal Ystradgynlais
Ensemble Pres

I ddechrau am 6:30

Tocynnau £3

Elw tuag at Cymdeithas Alzheimer's

COF Y CWM

Steven Thompson

Tonypandemonium yng Nghwm Tawe: Terfysgoedd Tarenni, 1911

Mae haneswyr wedi bedyddio'r blynyddoedd cyn y Rhyfel Byd Cyntaf yn 'Y Cyffro Mawr'. Rhwng 1910 a 1913, cafwyd cryn dipyn o ansefydlogrwydd cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol ym Mhrydain, gan gynnwys protestiadau milwriaethus y swffragetaid, yr argyfwng cyfansoddiadol rhwng Tŷ'r Arglwyddi a'r Tŷ Cyffredin, anfodlonrwydd yn Iwerddon, a llawer o streiciau diwydiannol treisgar a chythryblus. Un o'r llyfudd mwyaf ansefydlog oedd de Cymru. Rhwng y terfysgoedd gwrth-Semitaidd yn ardal Tredegar, y trais yn erbyn busnesau a phobl Tsieineaidd yng Nghaerdydd, y trafferth rhwng streicwyr a'r heddlu yn Nhonypany, a'r marwolaethau a fu yn dilyn streic y gweithwyr rheilffordd yn Llanelli, roedd de Cymru yn cael ei ystyried fel un o'r ardaloedd gwaethaf ym Mhrydain am gythrwf.

Un agwedd o'r 'Cyffro Mawr' nad sydd wedi derbyn llawer o sylw yw'r digwyddiadau yng Nghwm Tawe yn 1911. Gwelwyd digwyddiadau treisgar a gwaedlyd yng Ngodre'r-graig ym mis Mawrth ac eto ym mis Gorffennaf ac roedd y rhain yn gysylltiedig â streic glowyr pwll glo Tarenni, Godre'r-graig a barodd am bum mis rhwng mis Mawrth a mis Awst. Tyfodd anghydfod rhwng swyddogion a rheolwyr y pwll, ar yr un llaw, a'r gweithwyr, yn enwedig yr halwyr, ar y llaw arall. Penderfynodd 500 o weithwyr Tarenni gynnal streic, yn dechrau ar yr 21ain o Fawrth, wedi iddynt gael llond bol ar gael eu herlyn yn y llysoedd gan y rheolwyr a honnai bod eu harferion undebol yn golygu bod y cwmni'n colli elw.

Yn ddi-ddorol, ni dderbyniodd streicwyr Tarenni gefnogaeth Ffederasiwn Glowyr De Cymru oherwydd i arweinwyr y streic fethu â sicrhau caniatâd y Ffed yn y lle cyntaf. Yn ogystal, beirniadwyd arweinwyr y streic yn ofnadwy gan *Llais Llafur*, y papur newydd sosialaidd a gyhoeddwyd yn Ystalyfera. Sail gwrthwynebiad *Llais Llafur* i'r streic oedd ei gyhuddiad bod lleiafrif o'r arweinwyr, pob un yn halwyr, wedi gorfodi eu penderfyniad nhw i streicio ar weddill y dynion, yn enwedig y glowyr, mewn ffordd annemocrataidd. Bedyddiwyd D. J. Jones, asiant glowyr Tarenni a phrif ysgogwr y streic, fel y 'Gorgon o Godre'r-graig' gan *Llais Llafur*, ac bu ymryson geiriol yn y papurau newydd lleol rhwng Jones ac un o golofnwyr *Llais Llafur* trwy gydol y streic.

Yn ei dro, roedd Jones yn hallt ei feirniadaeth o'r Blaid Lafur a'r wasg a gefnogai'r blaid honno, yn enwedig *Llais Llafur*, gan eu disgrifio fel gelynyddion y dosbarth gweithiol. Mewn manifest o gyhoeddwyd er mwyn galw am gefnogaeth ariannol gan weithwyr eraill, disgrifiodd Jones y Blaid Lafur a'r wasg gogwydd-Llafur fel cobraod a pheithoniaid oherwydd eu methiant i gefnogi'r gweithwyr gyda'u streic.

Gyda threigl amser, cynyddodd y dioddefaint yng Nghwm Tawe yn ofnadwy, yn enwedig yng Ngodre'r-graig. Gwrthodai siopwyr estyn mwy o gredyd i rai teuluoedd ac roedd y rhain yn gorfod troi at eu cymdogion a'u ffrindiau am gefnogaeth. Adroddwyd hefyd bod plant yn cardota am fwyd ac roedd galwadau ar i'r awdurdodau addysg ddechrau rhaglen o fwydo'r plant yn yr ysgolion. Er gwaethaf y pwysau a'r tensiwn, mynnodd un o arweinwyr y streic na fyddai 'Tonypandemonium' yn digwydd yng Nghwm Tawe.

Ond, Tonypandemonium a ddaeth i'r cwm. Cynyddodd y tensiwn ac fe dorodd ar noson yr 22ain a'r 23ain o fis Mai 1911. Cytunwyd y byddai'r streic yn dod i ben ond fe ddaeth yn glir nad oedd y cwmni yn fodlon ail-gyflogi rhai o'r dynion. Ymgasglodd rhai streicwyr y tu allan i Westy Ystalyfera tua 10 o'r gloch y nos ar yr 22ain a galwyd ar weithwyr eraill y Tarenni i ymuno â nhw. Symudodd y dorf, yn cynnwys 130 o ddynion erbyn hyn, tuag at Godre'r-graig, gan ddefnyddio offer i wneud cymaint o sŵn â phosib. Roedd rhai o'r dynion wedi gwisgo fel menywod, yn gwisgo sgertiau a blowsys. Gallai hyn fod yn ffordd iddynt guddwisgo neu, efallai, roedd eu penderfyniad yn ymgais i

adlewyrchu'r hen draddodiad o ystyried menywod fel y rhai sy'n diogelu safonau moesol yn y gymuned. Dyma a ddigwyddai yn nhraddodiad 'y cefyl pren' yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan gosbid unigolion a dramgwyddodd safonau moesol y gymuned trwy gael eu cario gan dorf, yn cynnwys menywod neu ddynion wedi'u gwisgo fel menywod, trwy'r gymuned i gyfeiliant gweiddi a thwrw.

Gorymdeithiodd y dorf i Ffordd Gnoll, Godre'r-graig gan ymosod ar dŷ y cynghorydd Joseph Thomas, atalbwyswr yn y pwll glo, cyn symud ymlaen at dŷ James Evans, yr is-reolwr. Er y gwasgarwyd y dorf gan yr heddlu yn fuan wedyn, parhaodd y streic dros y misoedd nesaf a gwaethygdodd sefyllfa teuluoedd y streicwyr. O dro i dro, cafwyd adroddiadau yn y papurau newydd yn sôn am yr heddlu yn ymosod ar grwpiau o streicwyr a bod llinellau piced wedi cael eu ffurfio y tu allan i'r pwll. Mewn un digwyddiad ym mis Mehefin, cynhaliwyd cwrw-marsial ffug gan y picedwyr gan roi dyn a geisiodd groesi'r llinell biced ar brawf.

Cafwyd trafferth pellach ar noson y 18fed o Orffennaf pan orymdeithiodd llawer o'r streicwyr trwy Bontardawe ac ymunodd gweithwyr tun y Bryn, Ynysmeudwy â nhw er mwyn dangos eu cefnogaeth. Aeth rhai ohonynt i bwll glo Tarenni lle gwisgwyd William Thomas, a rhai dynion eraill a oedd yn torri'r streic ac yn dal i weithio, mewn ffedogau gwyn. Yr awgrym a geid gan y ffedogau hyn oedd nad dynion go iawn oeddent. Yn goron ar eu cywilydd, taflwyd y dynion hyn i mewn i gamlas Cwm Tawe cyn eu gorfodi i dyngu llw na fyddent yn gweithio eto yn ystod y streic.



Llun o'r heddlu oedd ar ddyletswydd yng Nglofa Tarenni yng Gorffennaf 1911, trwy ganiatad Archif Morgannwg

Erbyn tua 7 o'r gloch y noson honno, gwelwyd cannoedd o ddynion, menywod a phlant yn symud tuag at Godre'r-graig, a galwodd yr awdurdodau am fwy o heddlu o Gastell-nedd, Penybont-ar-Ogwr a'r Mwmbwls. Taflwyd cerrig at adeiladau pwll glo Tarenni ac wedyn troes y dorf eu sylw at dŷ James Evans unwaith eto. Ar ôl taflu mwy o gerrig, canu a gweiddi, cafodd tŷ James Evans ei ddinistrio a chynhaliwyd sawl ymosodiad baton gan yr heddlu cyn iddyn nhw lwyddo i wasgaru'r dorf o fil o bobl erbyn 10 o'r gloch. Cafodd dwsinau o ddynion a menywod, a rhai heddweision, eu hanafu'n ddifrifol.

Drannoeth, roedd 100 o heddweision wedi cael eu symud i mewn i'r cwm a daeth heddwach o'r diwedd. Yn y pendraw, daeth y streic i ben yn ystod wythnos gyntaf mis Awst. Amcangyfrifwyd fod £30,000 mewn cyflogau wedi ei golli yn ystod yr anghydfod a bu raid i rai o arweinwyr y streic adael y cwm a chwilio am waith mewn mannau eraill. Cafodd 26 o ddynion eu carcharu oherwydd eu rhan yn yr aflonyddwch ym mis Gorffennaf. Ond derbyniodd y dynion hyn gefnogaeth y gymuned, fel mae'r cyfarfodydd a gynhaliwyd er mwyn codi arian i gefnogi eu teuluoedd tra yr oeddent yn y carchar a chyfarfodydd yn protestio'n erbyn eu dedfrydau yn awgrymu.

Chwaraeodd Cwm Tawe ei ran yn 'Y Cyffro Mawr' hefyd, felly, ac fe ddylai'r enw 'Tarenni' ymuno â Llanelli, Tredegar, Caerdydd a Thonypany yn ein hanes ar y blynyddoedd cythryblus hyn. Roedd y trais a oedd yn nodwedd o'r 'Cyffro Mawr' mewn mannau eraill, ac yn enwedig y trais a dargedwyd at gynffonwyr, eiddo pyllau glo a thai rheolwyr, yn nodwedd o'r digwyddiadau yn y cwm hwn hefyd. Mae'r digwyddiadau yn ein hatgoffa nad oedd profiadau cymunedau Cwm Tawe yn ystod blynyddoedd diwydaneiddio yn hawdd nac yn syml a bod anghydfod cymdeithasol, gwleidyddol a diwydiannol yn nodwedd o'n hanes.

ABER-CRAF

MARWOLAETHAU

Bu farw Mr Gareth Evans, Heol Penwyllt ar ddechrau'r flwyddyn. Cydymdeimlwn â'i fab a'i ferch a'r teulu i gyd.

Bu farw Mrs Ann Mitchell, Ynyswen. Cydymdeimlwn â'i merch Arlene Hughes a'i chwiorydd a gyda'u teuluoedd.

Bu farw Mrs Betty Ward, Coelbren. Cydymdeimlwn â'i merch Lorraine Davies, Heol Tawe a'r wyron.

Bu farw yn 102 oed Mrs Ruth Lachmere-Oertel (gynt Gilbertson) un o'r hen deulu enwog oedd yn byw yn Nhŷ Abercraf.

Hefyd bu farw Mrs Gretta Hibbert, Craiginos yng nghartref gofal Tŷ Mawr yn 97 oed. Cydymdeimlwn gyda'i merch a'r teulu.

YR EGLWYS

Croeso nôl i'r Ficer Alun Brookfield, mae wedi bod yn absennol am fis ar gyfnod sabothol. Bob deng mlynedd gyda chaniatâd yr Esgob, mae hawl gan pob offeiriad gymryd tri mis i ffwrdd o'i waith i ddilyn cynllun personol neu ryw ddi-ddordeb. Bydd Alun ar gyfnod sabothol arall fis Mai ac Awst, ac ar ôl hynny bydd yn cyflwyno yr holl brofiad i'r aelodau.

PRIODAS

Mae David Alun Thomas a Kelly Louise Amber, Ynyswen yn priodi yn yr Eglwys ar ddydd Sadwrn Chwefror 22.

GENEDIGAETH

Ganed Mostyn William, mab cyntaf i Ffion a Daniel Ackroyd ar 2 Chwefror. Mae'n wŷr i Cynthia ac Alun Williams, Ynys Uchaf.

SEFYDLIAD Y MERCHED

Mis Ionawr bu'r aelodau am wibdaith i'r Gerddi Botaneg Cenedlaethol, Llanarthne, i weld arddangosfa o grefft glytwaith yn dangos blodau a phlanhigion wedi'u gwneud ar ddefnydd sgwar. Os bydd unrhywun sydd ag esiamplau o'r gwaith hwn am anfon peth i'r arddangosfa, maent yn bwriadu gwneud tapestry enfawr i ddathlu ein hetifediaeth flodeuol. Mae'n debyg fod 'Patchwork Meadow' yn rhan o gynllun gwledydd Ewropeaidd, sef Bulgaria, Croatia, Romania a Slovenia a elwir Blodau Gwyllt Ewrop.

BORE COFFI

Mae grŵp o wragedd yn cwrdda bob bore dydd lau yn y Neuadd Les am ddeg o'r gloch ac mae croeso i bawb ymuno. Mae'r elw o'r coffi a'r raffl yn cael ei rannu rhwng y ddwy Eglwys a'r Neuadd, tri chant i Abercraf, dau gant i Callwen a dau gant i'r Neuadd. Mae hyn rhwng Ionawr a Rhagfyr 2013.

GRŴP DADENI ABERCRAF

Mae grŵp yn cynnal Gŵyl y Gwanwyn am ddeg o'r gloch Mawrth 23 yn y Neuadd Les. Bydd lluniaeth ar gael a bydd raffl cyntaf y Clwb Cant yn cael ei dynnu. Dewch i gynorthwyo'r achos a bydd y gwagedd yn croesawu unrhyw un sydd â diddordeb ymuno â'r pwyllgor.

LLONGYFARCHIADAU

Dymunwn yn dda i Mr a Mrs Gwilym Jones, Coelbren, maent wedi dathlu eu Priodas Ddiemwnt.

YSTRADGYNLAIS

AIL DREFNU ADDYSG YN ARDAL YSTRADGYNLAIS

Mae tri deg saith miliwn o bunnoedd wedi ei fuddsoddi yn yr ysgolion yn ardal Ystradgynlais. Yn rhan allweddol o'r buddsoddiad yma oedd bod unedau addysg arbennig yn cael eu sefydlu mewn tair ysgol gynradd, sef unedau cyfrwng Saesneg yn ysgolion Golwg y Cwm a Bro Tawe ac uned

cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Dyffryn y Glowyr. Ysgol Dyffryn y Glowyr felly yw'r unig ysgol sydd ag uned Gymraeg ar gyfer disgyblion sydd yn cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Pe bai'r unedau hyn yn cau byddai'r plant hyn yn cael eu gosod i mewn i ddsbarthiadau prif ffrwd ac ond yn cael cefnogaeth beripatetig gan Bowys. Mae Powys hefyd yn bwriadu torri deg y cant o gyllideb Addysg Anghenion Arbennig ym mhob ysgol ac yn lle rhoi cyllideb i ysgolion sydd â phlant ag anghenion arbennig bwriedir rhoi'r arian i blant sy'n cael prydau am ddim yn yr ysgol.

Caiff y cynnig hwn effaith niweidiol ar ein plant ifanc yn ardal Ystradgynlais. Nid hwn a addawyd pan ddechreuodd yr Adnewyddu ar Ysgolion yn 2008 yn Ystradgynlais pan gaewyd deg o ysgolion cynradd.

Gwerthfawrogir eich cefnogaeth ynglŷn â chadw Unedau Anghenion Ychwanegol yn yr ysgolion.

Ysgrifennwch at Gyngor Sir Powys yn datgan eich anfodlonrwydd ynglŷn â'r bwriad yma.

PENBLWYDD ARBENNIG

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mrs Ivy Penhale, Heol Bryn ar dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar Chwefror 8.

DYDD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD

Cynhelir yr oedfa arbennig hon yng Nghapel Libanus, Glanrhyd am 6.30 yr hwyr ar nos Wener Mawrth 7.

Y NEUADD LES

Ar nos Sadwrn, Chwefror 15 cafwyd cyfle i fwynhau'r cyflwyniad o 'Priodferch Utah'. Roedd yn gyflwyniad da iawn. Piti na fyddai mwy yno i werthfawrogi'r perfformiadau teithiol sy'n dod yn lleol.

Am 7.15 ar nos Fercher, Mawrth 19, ceir cyfle i fwynhau'r bale "The Sleeping Beauty" o'r Tŷ Opera Brenhinol yn Llundain.

MARWOLAETHAU

Yn dawel, yn Ysbyty Singleton, ar Chwefror 6, bu farw Tudor Evans, Hawthorn Villa, priod Doreen, tad Andrew a Hywel, tadcu Telyn a Medi.

Yn dawel a sydyn yn ei gartref, Brynawel Villas, ar Chwefror 7, bu farw Ralph Gerald Trott, priod Diana, tad Stephen a Kathryn, tad yng nghyfraith Sandra a Tony, tadcu Casey, Jenna, Kira a Jaden, brawd Frances.

Yn frawychus o sydyn yn ei gartref ar Heol Ynyscedwyn, ar Chwefror 10, bu farw Glyndwr Richard (Glyn) Griffiths, priod Hannah, tad Sali, tad yng nghyfraith Malcolm, tadcu Bethan, Elin a Sara, hen dadcu Tomos. Dyma neges wrth y teulu:

"Dymunwn ni, Hannah, Sali, Malcolm a'r teulu, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad.

Diolch i'r Parchedig M. Llewelyn Jones am ei eiriau tyner a themladwy, i Mr Roger Castle a'i ferch Julie am gwasanaeth di-ail, ac i aelodau Cor Orpheus Treforus a'u arweinydd Joy Davies am eu parch tuag at Glyn ac am ei gofio. Enfawr yw y golled a'r hiraeth a mawr iawn yw ein gwerthfawrogiad am gymorth a chydymdeimlad cyfeillion annwyl."

Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teuluoedd hyn yn eu hiraeth a'u galar.

YSTALYFERA

PANT-TEG

GWASANAETH DECHRAU'R FLWYDDYD

Daeth aelodau Pant-teg a Jeriwsalem at ei gilydd ym Mhant-teg i Wasanaeth Cymun o dan arweiniad y Parch Kenneth Lintern. Da hefyd oedd gallu croesawu rhai o gyn aelodau'r Guros i'n plith. Diolch i Mr Lintern am wasanaeth bendithiol yn ôl yr arfer.

COFIO 'NÔL

Diolch i Ann Clee am y gerdd Tirlithriad Pant-teg yn rhifyn Chwefror. Fel dywedodd Ann, yn Sir Benfro mae'n byw ers blynyddoedd bellach ac y edrych ymlaen i dderbyn Llais i gael holl hanes Pant-teg a'r Cwm. Mae darllen Cerdd Ann siwr o fod wedi dwyn atgofion lu i lawer. Pwy sy'n cofio hefyd ar ambell brynhawn braf yn yr haf cael dianc o'r ystafell ddosbarth yn yr ysgol a mynd am dro i'r mynydd?

Cofion Cynnes iawn Ann oddi wrth bawb o'ch cydnabod yma yn ardal Pant-teg.

Y WERN

Y WERN YN CYDYMDEIMLO

MRS LIZZIE JANE WILLIAMS (BETTY)

Fe ddaeth cynulleidfia wresog at ei gilydd i'r Wern ar ddydd Mawrth Ionawr 21, er mwyn ffarfelio â Mrs Lizzie Jane Williams (Betty), un o aelodau hynaf y Wern. Nid oedd Betty wedi mwynhau'r iechyd gorau ers blynyddoedd ac roedd hynny yn naturiol iawn wedi ei chyfyngu tipyn. Ond trwy'r cyfan oll roedd hi wrth ei bodd yn clywed am bopeth oedd yn digwydd yn y Wern ac fel y gŵyr pawb ohonom roedd Betty'n hael iawn ei chefnogaeth i'r Wern.

Mae'n cydymdeimlad ni'n fawr iawn â Gloria a John a'r cysylltiadau oll yn eu hiraeth a'u colled ar ôl Betty. Y cysur mawr i ni fel Cristnogion yw ein hyder ni bod Betty a Noel gyda'i gilydd unwaith yn rhagor ac ni fyddant byth eto'n cael eu gwahanu.

MRS RHYSIAN REES

Yn ystod y mis fe syfrdanwyd ardal gyfan gyda'r newyddion blin bod Rhysian wedi ymadael â ni a hynny ar ôl cystudd llym ond un cymharol fyr.

Roedd Rhysian yn wraig, yn fam, yn famgu, yn hen famgu, yn chwaer ac yn chwaer yng nghyfraith gariadus ac ymroddedig i'w theulu ac yn gyfeilles dda a didwyll i bawb a gafodd y fraint o'i nabod.

Heblaw hyn i gyd roedd Rhysian yn aelod ffyddlon yn y Wern ac yn gefnogol i bob gweithgaredd oedd yn gysylltiedig â'r Wern.

Fe fydd gan bawb a gafodd y fraint o nabod Rhysian atgofion hyfryd a melys ohoni, a bydd sawl cylch yn gweld ei heisiau yn fawr iawn. Yn naturiol cylch y teulu fydd yn gweld ei heisiau fwyaf a mawr yw'r gobaith y bydd y lluo o atgofion hapus fydd gan Gethin a'i deulu annwyl am Rhysian yn fodd i'w cynnal a'u cysuro yn y dyddiau i ddod wrth iddynt alaru ar ei hôl.

Cydymdeimlwn yn fawr iawn â'r teuluoedd hyn yn eu colled a'u hiraeth ar ôl un mor annwyl yn eu golwg.

GWASANAETH YNG NGOFAL YR AELODAU

Yn y dyddiau hyn bydd rhaid i eglwysi, gan gynnwys y Wern, ddibynnu mwy a mwy ar eu hadnoddau eu hunain er mwyn sicrhau'r fendith arferol ar y Sul. Cawsom ar ddechrau'r flwyddyn oedfa fydd yn aros ar y cof am amser hir i ddod a honno'n oedfa oedd yn gyfan gwbl yng ngofal y diaconiaid ac aelodau'r Wern.

Diolch i bawb nid yn unig am eu gwaith rhagorol wrth gymryd rhan ond hefyd am eu parodrwydd i gymryd rhan. Mawr yw'r fraint.

CWMLLYNFELL

DATHLU'R NADOLIG

Cafwyd noson ardderchog yn y Neuadd eleni eto, gyda Band Pres Gwaun Cae Gurwen yn diddanu ac yng nghlwb Ystradowen daeth pobl ynghyd i fwynhau Côr y Gylais a Cwmni Theatr yr "Ancient".

"Y Goedwig Hud" oedd enw cynrychiad yr Ysgol Gynradd yn y neuadd. Pleser oedd gweld y plant ar y llwyfan yn canu,

llefaru a dawnsio.

Bu dathlu hefyd yn y capeli a'r eglwys – gwasanaeth carolau yn Eglwys y Santes Farged – gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Brynlllynfell a the parti yn dilyn-gwasanaeth Nadolig yng nghapel Cwmllynfell gyda'r plant yn dangos eu doniau yn canu, llefaru a chwarae offerynnau.

Bu awyrgylch arbennig yn y tri gwasanaeth – yn cyfleu gwir ystyr y Nadolig i bawb a'u mynychodd.



DATHLU

Dymuniadau gorau i Mr a Mrs Martin Harries, Is y Bryniau ar ddathliad eu **Priodas Arian** ac i Mr a Mrs Brian Thomas, Heol y Coedcae sydd newydd ddathlu eu **Priodas Aur**.

Llongyfarchiadau i Mr David Morgan, Rhiwfawr ar ei benblwydd yn 90 oed.

MARWOLAETH

Yn annisgwyl iawn bu farw Mr Charles Harries Jones, Heol Caedu. Cydymdeimlwn yn fawr gyda Wendy, ei weddw a'i fechgyn Neil ac Anthony a'r teulu oll.

NEUADD

Cafwyd noson hwylus iawn ar ddydd Sant Ffolant gyda Menter Iaith Castell Nedd Port Talbot yn cyflwyno cwis o dan arweiniad Mr Edwyn Williams.

Ar Fawrth 8 i ddathlu Gŵyl Ddewi bydd yna noson o adloniant o dan arweiniad y digrifwr Noel James, gyda'r artiste Eirlys Bellini (Madame Rygbi) â Chôr Meibion Dyffryn Aman. Y noson i gychwyn am 7 o'r gloch, pris mynediad £5.

CLEIFION

Dymunwn wellhad buan i Mr Gary Lake, Heol y Coedcae sydd newydd dderbyn triniaeth lawfeddygol ac i Mrs June Jenkins, Heol y Coedcae ar ôl cwmp ym ei chartref.

YR ALLTWEN

LLONGYFARCHIADAU

Ddydd Gwener, Chwefror 28, bydd cystadleuaeth Cân i Gymru yn cael ei chynnal ym Mhafiliwn Môn, a rydym yn sobor o falch i glywed bod "Ben Rhys" cân Gwilym Bowen Rees a'i fam Sian wedi ei dewis yn un ar y rhestr fer. Pob lwc iddynt. Mae Gwilym yn wŷr i Ella Harris.

Yn Theatr y Sherman Caerdydd cynhaliwyd noson wobrwyo Beirniaid Theatr Cymru i ddathlu llwyddiannau byd y theatr yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg.

Dyfarnwyd Tir Sir Gâr ynghyd â Blodeuwedd gan y Theatr Genedlaethol yn Cynhyrchiad Gorau ym Marn y Bobol, gyda Marc Rees, mab Jean Rees yn gyfrifol am gynhyrchu Tir Sir Gâr

Yn awr mae Marc wrthi yn paratoi perfformiad aml-gyfrwng i'r Theatr Genedlaethol – "Raw Material: Llaregub Revisited" gyda'r awdur John Treganna. Bydd yn cael ei berfformio yn Nhalacharn rhwng Mai 3 a 5, fel rhan o ddathliad Dylan Thomas yn 100 oed.

Llongyfarchiadau i Chloe, merch i Jane a Kevin James, ac wyres Pamela a John Thomas sydd wedi ei dewis yn ddirprwy brif-ferch yn Ysgol Gyfun Ystalyfera.

GWELLHAD BUAN

Dymunwn adferiad buan i Jean Rees, mam Paul, Sharon a Marc sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Baglan.

MERCHED Y WAWR

Aeth aelodau Merched y Wawr i'r Crown and Sceptre, Llangatwg a mwynhaodd pawb y bwyd blasus a'r gwmniaeth bleserus yn eu cinio blynyddol.

Daeth Ann Rosser, Gellifedw i'n diddori yn ein cyfarfod mis Chwefror. Mae Ann yn aelod ffyddlon iawn o Gangen Lonlas, yn gyfrifol am y golofn farddol yng nghylchgrawn y mudiad - Y Wawr, a hefyd yn aelod o dîm Tanau Tawe i Talwrn y Beirdd.

Testun ei sgwrs oedd y Delyn, a mae Ann yn dipyn o arbenigwraig ar y testun, wedi cyhoeddi sawl llyfr ar y pwnc.

Soniodd am wahanol delynau a hanes y delyn a'r eirfa ddiddorol sydd ynghyd â hwynt, a chlywyd enghreifftiau o gerddoriaeth i'r delyn ar dâp.

Cawsom hefyd hanes Augusta Hall, Arglwyddes Llanofar a Maria Jane Williams, Aberpergwm, a sut yr aethant ati i sicrhau i gofnodi nifer o'n halawon gwerin.

Diolch yn fawr iawn iddi am brynhawn hwylus, diddorol iawn.



RHOS

LLONGYFARCHIADAU



Llongyfarchiadau gwresog i Trystan Rhys Edwards, Heol Castell Nedd ar ennill Gradd B.Sc yn Ymarfer Chwaraeon - Prifysgol De Cymru. Yn y dyfodol agos bydd yn astudio tuag at radd uwch.

PONTARDAWE

SOAR

SUL Y BEIBL

Dathlwyd Sul y Beibl gan eglwysi'r ardal yn Soar eleni - ar Sul olaf mis Ionawr yn ol yr arfer. Y Parchedig Pam Cram (Clydach) oedd y pregethwr a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Delma ac Elizabeth (Alltwn), Barbara (Gosen Trebannws) Iris (Eglwys Sant Pedr) John, Sioned, Lowri a phlant yr Ysgol Sul (Soar.) Tom Jones oedd yr organydd. Cyfanswm y rhoddion gan yr Alltwn, Bethesda, Gosen, Saron, Sant Pedr, Soar a'r Tabernacl oedd £310 (£80 i Gymdeithas y Beibl a £230 i Beibl.net). Swm y casgliad rhydd oedd £105.70 felly rhoddwyd £415.70 i waith cyfieithu'r Gair. Diolch i Hywel Wyn am baratoi trefn y gwasanaeth ac i bawb am eu cyfraniad.

GWASANAETH COMISIYNU

Ar nos Wener Chwefror 21ain, bu cyfarfod o eglwysi Presbyteriaid Brynllnyfell, Tabernacl Ystradgynlais a Soar i groesawu ac i gomisiynu Hefin Rhys Jones ar gyfer ei waith bugeiliol gyda'r dair eglwys. Llywydd y cyfarfod oedd Mrs Margaret Jones, Llywydd Henaduriaeth Morgannwg Llundain

a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan gynrychiolwyr o'r dair eglwys. Hefyd fe gyflwynwyd Hefin gan ei hen gyfaill, y Parch. Trystan Hallam (Caerdydd.) Roedd ei fam a'i dad (Parch Llew Jones, Pontarddulais) ac aelodau eraill o'i deulu yn bresennol a chafwyd pregeth gan y Parch D. Andrew Jones, Ysgrifennydd yr Henaduriaeth. Cawsom gyfle i gymdeithasu wedi'r oedfa yn y festri dros gwpaned a lluniaeth blasus. Edrychwn ymlaen yn fawr at y dyfodol ac am gymorth Hefin yng ngwaith y Deyrnas.

YSGOL SUL

Mae'r Ysgol Sul yn mynd o nerth i nerth - gyda thri dosbarth ar gyfer ein disgyblion o 2-12 oed. Mae croeso mawr i aelodau newydd o bob oedran, ac mae gweithgareddau newydd cyffrous ar y gweill yn sgil apwyntiad Hefin Jones fel Gweithiwr Cristnogol yn y Cwm. Os oes diddordeb gennych, dewch draw am 1130 ar fore Sul i ymuno â ni!

TABERNACL

OEDFAON MIS MAWRTH

2	10.30	Y Brawd Owen Pugh	Cymundeb
9	5.30	Y Parch Clive Williams	Saesneg
16	10.30	Y Brawd Owen Pugh	
23	10.30	Y Brawd Eric Francis	
30	5.30	Y Brawd Gareth Hopkin	

OEDFAON MIS EBRILL

6	10.30	Y Brawd Owen Pugh	Cymundeb
13	10.30	Y Chwaer Marie Thomas	Saesneg
18	10.30	Y Brawd Owen Pugh Groglith	
20	10.30	Y Brawd Owen Pugh	Cymundeb y Pasg
27	10.30	Y Brawd Eric Francis	

ALLAN O'R YSBYTY

Rydym yn falch iawn i glywed fod dau o'n haelodau wedi dychwelyd o'r ysbyty. Mae Betty Wyn Bowen wedi ymgyrtrefi yng nghartref gofal preswyl Llwynallt tra fod Ann Paulette yn awr yn ôl yn Nhŷ Ynysderw, Pontardawe. Gobeithiwn bydd y ddwy yn parhau i wella.

PARTI PENBLWYDD

Ar nos Sadwrn 1af Chwefror cafodd aelodaeth y Tabernacl wahoddiad i ymuno efo'n cyn aelod Lee Walton i ddathlu ei benblwydd yng Nghlwb Cyhoeddus, Ystalyfera. 'Roedd nifer sylweddol ym mhresennol a chawsant eu diddanu'n hyfryd gan unawdydd o'r 'West End', sef Susan Black, a gan Gôr y Gylrais. Roedd lluniaeth neilltuol wedi ei baratoi a roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn. Cyflwynwyd darlun o Eglwys Llanguig gan Mike Jones i Lee fel diolch iddo am ei gyfraniad yng nghais y Tabernacl i atgyweirio'r organ yn y capel. Bydd Lee yn un o dri organydd a fydd yn perfformio yn ein cyngerdd yn y capel ar 7fed Mawrth am 7.00 o'r gloch. Tocynnau wrth y drws

Eisiau cael hwyl a chwrdd â ffrindiau newydd?

Ar **Fawrth 24ain** mae Clwb Cristnogol i blant (7-10 oed) a Chlwb Ieunectid (11-16 oed) yn dechrau ym Mhontardawe.

Gemau • X-box • Crefftau • Pŵl • Chwaraeon •

Tripiau a llawer o hwyl

Pryd: Clwb Plant 6 i 7 y.h.

Clwb Ieunectid 7-8 y.h. ar nosweithiau Llun

Ble: Festri Capel Soar, Pontardawe

Croeso cynnes i bawb

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Hefin Jones

0759 7374309 neu hefinrhys@sent.com

RHYDYFRO

CAPEL Y BARAN

'Roedd oedfa Mis Ionawr o dan arweiniad y Brawd D C Davies. Pregelthodd gydag arddeliad ar gymal diddorol o Salm 73 "Yr oedd fy nhraed bron â baglu a bu ond y dim i'm gwadnau lithro". 'Roedd y Per-ganiedydd hefyd yn ymwybodol o berygl y Cristion o lithro ar daith bywyd. Yn ei emyn cyfarwydd "737 Caneuon Ffydd" mae yntau fel y Salmydd yn y pennill cyntaf yn gofyn i Dduw am ei warchod, ac yn y pennill olaf yn nodi'r peryglon.

Cyfarwydda fenaidd, Arglwydd,
pan wy'n teithio 'mlaen ar hyd
llwybrau culion, dyrys, anodd
sydd i'w cerdded yn y byd:
crawd ac ysbryd yn rhyfela,
weithiau cariad, weithiau cas,
ton ar don sydd yn gorchuddio
egwyddorion nefol ras.

Cul yw'r llwybyr imi gerdded,
is fy llaw mae dyfnder mawr,
ofn sydd ynof yn fy nghalon
rhag i'm troed fyth lithro i lawr:
yn dy law y gallaf sefyll,
yn dy law y dof i'r lan,
yn dy law byth ni ddiffygiaf
er nad ydwyf fi ond gwan.

Dywed Delyth Morgans Phillips yn y Cydymaith i Ganeuon Ffydd fod William Williams wedi ei ysbrydoli i gyfansoddi'r emyn hwn tra oedd yn cerdded heibio i'r Fannog (sydd bellach dan ddyfroedd Llyn Brienne) ar ei ffordd o Bantycelyn i Langeitho.

Diolch i D. C. Davies am ein hatgoffa fod angen cymorth arnom ni fel Cristnogion i aros ar ein traed lawn gymaint heddiw ac yng nghyfnod y Salmydd a William Williams.

Bydd oedfa Mis Ebrill o dan ofal y Parchg Ieuan Davies, Mis Mai y Parchg D. Carl Williams, Mis Mehefin Y Parchg Emyr Gwyn Evans (ymweliad Eglwys y Gwynfryn Rhydaman). Bydd pob oedfa ar y Sul cyntaf o'r Mis am 2.30 y/p. Croeso cynnes iawn i bawb.

SARON

2	Mawrth 2014	Brawd Dorian Richards
9	Mawrth 2014	Brawd Gary Nicholas
16	Mawrth 2014	Parch Daniel Jenkins
23	Mawrth 2014	Parch Gareth Morgan Jones
30	Mawrth 2014	Parch Byron Davies

GWELLHAD

Dymunwn yn dda a gwellhad buan i Arthur Bryn Jones Gellidew ar ôl ysbaid yn ysbyty Treforys a Chastellnedd.

MARWOLAETH

Bu farw Havelock McCreadie, neu fel y'i hadnabyddwyd Mac, yn sydyn yn ei gartref Gellideg, gŵr y diweddar Mair a thad Susan Anna a Tina. Bu gwasanaeth angladdol yn eglwys San Pedr Pontardawe a chladdwyd ym mynwent Coedgwilym. Cydymdeimlwn â'r Teulu yn eu hiraeth.

CLYDACH

BALCHDER CYMUNED

Roedd yn bleser cerdded drwy bentref Clydach ganol Chwefror a gweld holl faneri'r Ddraig Goch yn cyhwan yn yr awyr yn barod ar gyfer Gŵyl Ddewi.

Cyngor Cymuned Clydach fu'n gyfrifol am y baneri ac

ambell gafn blodau hefyd. Gwelwyd y Cyngorwr Gordon Walker a John Bryn Jenkins wrthi yn gosod y baneri yn y dalwyr oedd eisoes gan nifer o'r busnesau a arferai ddal y coed Nadolig. Talwyd pum punt gan y busensau am y baneri ac roeddent yn edrych yn hyfryd iawn. Wrth gerdded drwy'r pentref roedd y baneri yn rhoi rhyw deimlad o falchder ar Wyl ein nawddsant - gweithred fach, efallai ond mewn dyddiau pan fo diffyg brawdgarwch roedd yn arwydd bod y gymuned yn falch o'u Cymreictod ac yn fodlon arddel hynny.



Diolch am bob ymdrech gymunedol gyda'r baneri. Gobeithio byddwn fel cymuned yn parhau i ymdrechu i gadw ein canolfanu cymdeithasol sy'n cymaint o angor i nifer yn ein plith. Gwelwyd camerau Heno yn ffilmio yn y pentref a nifer o'r brodorion yn ymfalchio yn y weithred syml hon.

MERCHED Y WAWR



Ddechrau'r flwyddyn bu aelodau'r gangen yn dathlu'r Flwyddyn newydd ym Mwyty Tiamo ar Sgwar y Faerdre. Cafwyd croeso brwd gan berchennog y gwesty a'i wraig. Gan ein bod yn griw niferus roeddent wedi agor yn un swydd ar ein cyfer. Cawsom brofi o fwyd yr Eidal yn ogystal a chân i'n hudo. Ymatebodd yr aelodau drwy ateb a chanu cân werin Gymraeg.

Yn ystod mis Chwefror cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ar waith y Samariaid gan Margaret Jones o Bort Talbot. Dyma fudiad sydd yn gwneud gwaith arbennig ac ar gael bob awr o'r dydd. Cynigir gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac ni allai Margaret sy'n gwirfoddoli gyda'r Mudiad bwysleisio gormod ar bwysigrwydd Gwrando - sy'n allweddol yn y gwaith pwysig hyn. Llywyddwyd y cyfarfod gan Jean Bowen a diolchwyd i Margaret gan Josi Jones, ein cynlywydd.

CYTÛN CLYDACH

T.W.A.M

Ystyr y llythrennau TWAM yw Tools with a Mission.

Ar noson stormus iawn daeth Andy Bowdler o Benarth a Wayne Browning o Fryncoch, gwirfoddolwyr o'r Gymdeithas yma i siarad yng nghyfarfod Cytûn Clydach. Efallai mae'r tywydd gwael oedd achos y nifer fach a ddaeth - dim ond pedair o'r dwsin o'r eglwysi a gynrychiolwyd. Amlinellwyd gwaith yr elusen a chyfeiriwyd at waith mawr a wneir wrth lanhau ac atgyweirio offer ar gyfer cael eu defnyddio yn y gwledydd tlawd. Danfonir y rhan fwyaf i'r Affrig Is- Sahara ond weithiau hefyd i ardaloedd trychineb fel Haiti. Penderfynwyd casglu offer a daeth pobl â nhw i Gapel y Nant i'w casglu. Roeddent yn falch iawn o'r hen offer saer a gardd, y peiriannau gwnio a hen deipiaduron. Mae'r metel sydd yn yr hen offer yn dda - nid yw offer mwy diweddar gymaint o werth. Roedd Andy

Bowlder sy'n gydlynnydd Cymru o TWAM yn meddwl bod yr ymdrech wedi bod yn werth chweil gan fod y ddau gerbyd yn eithaf llawn. Bydd Andy yn gadael rhagor o daflenni i ni er mwyn i eglwysi eraill yn yr ardal wneud rhywbeth tebyg. Os carech chi rywun ddod i siarad neu gasglu offer cysylltwch â Andy ar twamcymru@twam.co.uk neu 07814573696. Diolch i bawb a gyfrannodd at yr ymdrech hon.



CYRDDAU GWEDDI AM UNDEB CRISTNOGOL

Cynhaliwyd Cyrddau Gweddi yn ystod mis Ionawr bob bore o'r wythnos weddi - Capel y Nant dydd Llun, St Michael Trebannws ddydd Mawrth, Eglwys Santes Fair dydd Mercher, St Benedict dydd Iau, Wesle dydd Gwener a Chalfaria dydd Sadwrn.



Yn y llun gwelir y Curad John Browne o St Benedict gyda'r Parchedigion Pam Cram, Dewi Hughes, Huw Francis ar ddiwedd yr oedfa yn St Benedict.

ASTUDIAETHAU'R GRAWYS

Eleni eto bydd eglwysi Clydach yn cynnal Cwrs Grawys gan ddechrau ar nos Fawrth, Mawrth 11 yng Nghapel y Nant, 18 yng Nghalfaria, 25 yng Nghapel y Nant, Ebrill 1 yn CYN ac yng Nghalfaria ar Ebrill 8fed. Dilyniir Cwrs Efrog – "Adeiladu ar y Graig"- Ffydd, amheuaeth – a Iesu. Mae croeso i unrhyw un ymuno yn y sesiynau dwyieithog hyn am 7 o'r gloch.

TY CROESO

Mae Tŷ Croeso yn brysur o hyd. Mae'r galw am y Banc Bwyd, yn anffodus yn fawr o hyd a'n canolfan fach yn brysur iawn bron pob bore Mawrth. Mewn cyfnodau tawelach mae 'na gyfle i ni hefyd roi amser i ambell unigolyn sy wedi galw heibio jyst am sgwrs a chydymdeimlad. Cafodd y grŵp ar gyfer pobl sydd wedi cael profedigaeth gefnogaeth gan gynrychiolydd o 'Cruse' (elusen sy'n cefnogi pobl sydd wedi colli rhywun agos drwy farwolaeth.)

Ar Chwefror 26ain trefnwyd Cawl a gweithgaredd ar Gŵyl Ddewi i blant. Codwyd tua £100 at ein costau. Mae Tŷ Croeso wedi cael ei ddewis fel canolfan dosbarthu llyfrau ar gyfer 'World Book Night' ym mis Ebrill- cyfle i annog y bobl sy'n dod atom am wahanol resymau i ddarllen nofel- ac efallai ailddarganfod plaser darllen. Mae'r Clwb Llyfrau yn cwrdd yn y prynhawn yn awr – grŵp bach ond yn fywiog! Dewch i weld ein canolfan fach a phrofi un o'r gweithgareddau. Os ydych am drefnu rhywbeth yn Nhŷ Croeso cysylltwch â Nesta, 844018 neu Pam, 845942. Dyma raglen mis Mawrth

Boreau Mawrth:

Mawrth 4, 11, 18 a 25 rhwng 10 - 12 - Taro mewn a Banc bwyd.

Prynhawn Mawrth:

Mawrth 11: 2.30 - 4.30 Cover to cover (Darllen llyfr Saesneg)

Boreau Iau:

Mawrth 6, 13, 20, 27 rhwng 10 - 11.30: Cyfle i ymarfer eich Cymraeg yn y Siop Siarad.

Mawrth 13 a 27: rhwng 1.45 - 3.15 - Grŵp cefnogi rhai sydd mewn galar.

Mawrth 23, rhwng 4.30 - 5.30 Cafe church.

AGOR Y LLYFR

Cynllun yw Agor y Llyfr ar gyfer darllen storïau o'r Beibl i blant ysgolion cynradd. Mae tîm o wirfoddolwyr wedi bod yn darllen ers dwy flynedd i ysgolion Saesneg eu cyfrwng yng Nghlydach ac Ynystawe. Yn ystod y tymor hwn fe fu grŵp o wirfoddolwyr eraill yn darllen storïau yn yr ysgolion Cymraeg eu cyfrwng sef Ysgol Gymraeg Trebannws ac Ysgol Gymraeg Gellionnen. Diolch i bawb am roi o'u hamser i wneud hyn.

CYMORTH CRISTNOGOL

CWIS



Cynhaliwyd Cwis llwyddiannus iawn yn neuadd y Moose ar nos Wener Chwefror 14. Trefnwyd y cyfan gan Dr Allan Cram, llywydd Pwyllgor Clydach o Gymorth Cristnogol a pharaotwyd y Cwis gan Robat Powell. Daeth dros hanner cant i'r Cwis a chodwyd £260. Enillwyr oedd Tim Bobsleigh Cymru a welir uchod. Yn y llun gwelir aelodau'r tîm buddugol sef Ann Gregson (roedd Martin wedi diflannu cyn tynnu'r llun), Mary Watts, Val O' Donnell, Teresa Thomas a'u hwyresau Rhiannon a Kay Thomas. Llonyfarchiadau iddynt.

CINIAWAU'R GRAWYS

Cynhelir Ciniawau'r Grawys amser Cinio dydd Gwener rhwng 12 – 1 o'r gloch gan ddechrau yn Eglwys St Michael yn Nhrebannws ar Fawrth 14. Mawrth 21 a 28 yn Capel y Nant. Derbyniir cyfraniadau yn ystod y ciniawau ar gyfer gwaith Cymorth Cristnogol.

CAPEL Y NANT



Yn y llun gwelir Brenda Evans yn cyflwyno sic ar ran Chwaeroliaeth Capel y Nant o £600 i Hywel Williams ar gyfer Uned y Galon Ysbyty Treforys. Codwyd yr arian yn ystod y flwyddyn 2013. Yr elusen am eleni fydd Ambiwlans Awyr

Cymru. Braf yw deall bod Freda Rees a Catherine Evans ein trysorydd allan o'r ysbyty .

Yn ystod mis Chwefror arweiniwyd y gwasanaethau gan y Parchedigion Cynwil Williams, Mrs Einir Jones Rhydaman , Matthew Evans Pennaeth Ystalyfera, ein harweinydd Robot Powell ac un o'n cyn weinidogion y Parchg Guto Prys ap Gwynfor o Landysul. Cafwyd hefyd gyrrdau cyfoes yn trafod 'Byw'r Cwestiynau' a hoff adnodau.

Y NEUADD

Defnyddir y Neuadd yn helaeth i weithgareddau'r capel ac hefyd gan y gymdeithas leol. Gobeithir adnewyddu'r adeilad er mwyn ei wneud yn fwy addas ar gyfer gweithgareddau. Mae toriadau mawr mewn gwasanaethau yn yr ardal a mwy a mwy o gyfrifoldeb a phwysau yn cael ei roi ar waith gwirfoddolwyr. Gobeithio ceir cymorth ariannol o wahanol fannau drwy ambell grant ond mae'n rhaid i ninnau hefyd fod yn barod i ysgwyddo'r baich. Yn ystod mis Mawrth cafwyd cynnod o dderbyn rhoddion fel dechreuad i'r gwaith. Arwydd o gymdeithas fyw ac iach sy'n barod i weithio.

PWYLLGOR CLYDACH YMCHWIL CANCR

Ar Fawrth yr 20fed disgwylir Dr Woodman o Ysbyty Singleton i ddod i siarad am Cancr Plant. Cynhelir y cyfarfod yn neuadd Capel y Nant.

Mae'r grŵp yma yn weithgar iawn yn codi arian tuag at Ymchwil Cancr. Y Llywydd yw Mr Roger Smith, Is-lywydd Mrs June Griffiths. Cadeirydd ac Ysgrifennydd- Dr Lyndsey a Val Morgan. Aelodau'r pwyllgor yw Jan Griffiths, Barbara Notman, Malvina Rees, Teresa Thomas, Val O' Donnell a Val Usher.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Sian a Rhodri Thomas ar enedigaeth merch fach, Mia, chwaer i Ella ac Erin ac wyres i Wyn a Gloria Thomas.

Llongyfarchiadau i Nia Besley merch Jennifer ac Aurwel Morgan ar dderbyn gradd M.A yn ddiweddar o Brifysgol Abertawe.

Llongyfarchiadau i Gareth Rees a Mari, Heol Hebron Clydach ar eu priodas yn ddiweddar. Pob dymuniad da iddynt.

FELINDRE

NEBO

Ar Sul olaf Ionawr cafwyd oedfa wedi ei threfnu gan Janis Stone ac yn cynorthwyo roedd Eiri Evans, Phyllis Bell ac Aneurin Mainwaring. Mae Janis yn barod bob amser i roi o'i gwasanaeth. Hefyd yn weithgar fel arolyges yn yr ysgol Sul.

CYDYMDEIMLO

Mae'r tristwch a'r hiraeth yn dal i fod ym mhentref Felindre pan fu farw cyfnither i Ann Evans Bryncelyn sef Joan Williams Clydach. Cydymdeimlwn â Tom ei phriod ac Ann Evans a'r teuluoedd i gyd.

YSBYTY

Dal i fod yn ysbyty Singleton mae Tom Stone Cilfaen ond ychydig yn well erbyn hyn. Hefyd yn ysbyty Singleton mae Iorwerth Jones Brynhyfryd. Gobeithio na fydd yn hir cyn dychwelyd nôl i gwmni Margaret Rose yn Llys y Tywysog. Hefyd Mr. Price Fferm y Cwrt. Carwn ddymuno gwellhad llwyr a buan iddynt i gyd.

Dal yn eu salwch ar yr aelwyd yn Asgard mae Meirion a Beryl Bell ond diolch am y cymorth maent yn gael gan y teulu, ffrindiau a chymdogion.

NEUADD

Does dim yn cael ei gynnal yn y Neuadd ar hyn o bryd ond mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen ar waethaf y tywydd. Diolch i bawb sydd yn brysur yn ymwneud â'r gwaith yn enwedig y Cynghorydd Dorian Williams a Phil Owen.

PREGETHWYR

MAWRTH

2	Parch Evan George
9	Miss Annie Derrick
16	Mrs. Meirwen Crocket
23	Parch Alan John
30	Parch Aled David Jones

EBRILL


6	Miss Annie Derrick
13	Cymanfa Nebo ym Mhantycrwys
18	Gwener y Groglith 10.30 Cymun.
20	Mr. Morlais Owen (Cymun)
27	Mr. Owen Pugh

CRAIG CEFN PARC

PANTYCRWYS

KICK BOXING

Llongyfarchiadau i Angharad, merch Darren a Bethan James, Heol y Mynyddar ar gyrraedd y safon 'Gwregys Glas' yn y maes 'Kick Boxing'. Dyma lun ohoni gyda'i hyfforddwyr Anthony a Danielle. Da iawn wir.



CYDYMDEIMLO

Gyda siom a thristwch fel cyd aelodau clywsom y newyddion am farwolaeth Mrs Joan Williams (Rees), Heol y Ffatri, Clydach. Yn mynychu gwahanol oedfaon a gweithgareddau ym Mhantycrwys ers ei phlentynod roedd yn ffyddlon iawn i'r achos nes i afiechyd dorri ar ei thraws. Etholwyd hi yn ddiagon yn 1998, yn wraig i Tom, roedd yn fam i'r diweddar Ceri ac yn chwaer i'r diweddar Alma. Bu farw ar y 10 o Ionawr yn 84 mlwydd oed. Cynhaliwyd gwasanaeth angladdol ym Mhantycrwys a'r Amlogsgfa yn Abertawe. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion Derwyn Morris Jones, Dewi Myrddin Hughes a Mr Gareth Hopkin. Yr organydd oedd Eiri Mair Griffiths. Da oedd cael cymaint yno i dalu'r deyrnged olaf ac i gefnogi Tom yn ei golled a'i hiraeth. Claddwyd ei gweddillion yng Ngardd Orffwys y fynwent.

Hefyd fel cymuned cydymdeimlwn â theulu y diweddar Marina Evans, Heol Clydach a fu farw ar Ionawr 21 yn 79 mlwydd oed. Roedd yn wraig i'r diweddar Hedley, mam i'r diweddar Keith ac yn famgu i Marc. Cynhaliwyd gwasanaeth yn Amlogsgfa Abertawe o dan ofal Mr Gareth Hopkin.

Eto, gyda thristwch, clywsom am farwolaeth Maria Richards, Rhydypanyd, a fu farw ar Ionawr 31 yn 45 mlwydd oed. Roedd yn ferch i Ken a'r diweddar Maureen, ac yn chwaer i'r diweddar Heather. Cynhaliwyd oedfa angladdol yn Salem, Llangyfelach o dan ofal y Parch John Talryn Jones. Roedd y capel yn orlawn gyda theulu, cymdogion a ffrindiau yno i dalu'r deyrnged olaf ac i gefnogi Ken yn ei golled a'i hiraeth. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Salem.

PENBLWYDD

Fel eglwys dymunwyd penblwydd hapus i'n haelod a diacon

hynaf sef Mr Gwilym Herber Williams, a oedd yn 95 blwydd oed yn Chwefror. Oherwydd afiechyd nid yw bellach yn gallu mynychu'r oedfaon. Rydym yn gwerthfawogi y gofal mae ei ferch Eiri, yn roi iddo yn ei chartref yn y Glais. Pob dymuniad da iddo.

PRIODAS – ELIM

Ar fore Sadwrn 15 o Chwefror cynhaliwyd gwasanaeth priodasol yn Elim o dan arweiniad y ParchG Ian Lewis rhwng Eirian, merch Alistair a Christine Davies, yr Alltwn, a Jonathan mab Jacqueline a Paul Kerry o ardal Manceinion. Mae Eirian a Jonathan yn ymgartrefu yn Bolton. Fel cymuned dymunwn briodas dda iddynt. Pob bendith i'r dyfodol.



GYMANFA GANU

Ar fore Sul y Blodau eleni, Ebrill 13, fe gynhelir Cymanfa Ganu ym Mhantycrws ynghyd â'r eglwysi lleol – Nebo Salem ac Elim. Yr arweinydd gwadd yw Mr D. Huw Rees, arweinydd Côr Meibion Rygbi Treforys. Croeso cynnes i bawb.

TREBANNWS

PEN-BLWYDD HAPUS LORRAINE.

Yn yr un modd â'r frenhines, mae dathliadau pen-blwydd Lorraine Hopkin yn 80 oed wedi parhau am bron wythnos. Mae Lorraine yn gymeriad twymgalon a phoblogaidd yn y pentref a phawb yn awyddus i ddymuno'n dda iddi. Dechreuodd y dathliadau yn y bore coffi lle mae wastad yn barod i helpu, yna yn y dosbarth crochet lle mae'n aelod. Cafodd dathliad arall gyda'i ffrindiau yn yr hen oed a daeth yr wythnos i ben gyda pharti hwyliog yn y clwb rygbi wedi ei drefnu gan ei mab a'i merch yng nghyfraith Darwyn a Karen a'r wyrion Jordan a Briony.

Dymuniadau gorau ac iechyd da i Lorraine ar drothwy degawd arall.



Yn y llun gwelir Lorraine gyda'i dwy gyfnither Ann a Margaret yn dathlu gyda ffrindiau yn y bore coffi yn y neuadd gymuned.

YSGOLION

YSGOL GYNRADD DYFFRYN Y GLOWYR

RHANDIR YR YSGOL

Mae disgyblion yr ysgol wrthi'n brysur yn dechrau sefydlu Rhandir ar safle'r ysgol. Hoffwn ddiolch i Fanc Barclays, ac yn enwedig i Mrs Mairwen Evans, Rheolwraig cangen Ystradgynlais, am noddi ein menter ac i Quids In Ystradgynlais am eu cyflenwad o blanhigion diri. Yn ogystal â hyn, mae'r Rotari lleol wedi ymweld â'r ysgol i ddangos i'r disgyblion sut i blannu coed ac rydym yn ddiolchgar am y rhodd hael o goed amrywiol.

DŴR A'R DISGYBLION

Aeth Blwyddyn 5 a 6 i ymweld â Chanolfan Addysg Dŵr Cymru fel rhan o'u thema hanner tymor ar Ddŵr gan ddysgu sut mae dŵr yn cyrraedd ein cartrefi. Cafodd y plant hefyd gyfle i chwarae rôl pobl y trydydd byd gan gario dŵr o'r afon a phenderfynu ar a blaenoriaethu sut i ddefnyddio'r dŵr. Roedd pawb wedi blino'n llwyr ar ôl cario'r dŵr ond yn gwerthfawrogi pa mor ffodus rydym ni yng Nghymru.

TYLLUANOD

Joio mas draw wnaeth holl blant y Cyfnod Sylfaen wrth i nifer o dylluanod ymweld â'r ysgol. Dysgodd y plant ffeithiau am yr adar yn ogystal â gwneud gwaith amrywiol a gwych arnynt yn ôl yn y dosbarth.

ABERTAWE A'R AIL RYFEL BYD

Aeth Blwyddyn 3 a 4 i Amgueddfa'r Ail Ryfel Byd yn Abertawe fel rhan o'u themâu. Lle cawsant gyfle i ddysgu am fywyd bob dydd yn ystod y cyfnod hwnnw yn ogystal ag effaith y bomio ar Abertawe.



YSGOL GYNRADD Y WERN

HER Y WERN

Braf oedd trefnu a chynnal cystadleuaeth pêl droed a phêl rwyd ar gyfer chwech o ysgolion cylch Abertawe a Chastell Nedd Port Talbot yn Ysgol Gyfun Ystalyfera yn ddiweddar. Roedd safon y chwarae yn uchel iawn gyda sawl unigolyn yn dal y llygad. Roedd yn bleser bod yng nghwmni disgyblion ysgolion Pontardawe, Castell-nedd, Tyle'r Ynn, Lôn Las, Cwmllynfell ac, wrth gwrs, Y Wern. Llongyfarchiadau mawr i Lôn Las ar gipio'r tlws pêl droed ac i Tyle'r Ynn am ddod yn ail, ac i Ysgol Castell-nedd am ennill y tlws pêl rwyd ac i ysgol Y Wern am ddod yn ail agos iawn. Diolch yn fawr hefyd i Alex, Colin a Kyle am ddyfarnu'r pêl droed ac i ddisgyblion Ysgol Gyfun Ystalyfera am eu gwaith gyda'r pêl rwyd gan ein cynorthwyo i sicrhau bod y prynhawn yn un mor llwyddiannus.

PENCAMPWRIAETH TENNIS BWRDD DE CYMRU

Teithiodd 14 o blant yr ysgol i Gaerdydd er mwyn cystadlu yn yr Athrofa Chwaraeon. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i ni gystadlu ac mae'n dipyn o her bod yng nghwmni rhai o chwaraewyr gorau De Cymru ar gyfer ysgolion cynradd. Er nad oedd yr ysgol mor llwyddiannus ag y bu y llynedd, erbyn diwedd y bencampwriaeth disgyblion Ysgol Y Wern a gipiodd y tlws ar gyfer yr ysgol a gyfrannodd fwyaf tuag at y dydd gyda'u brwdfrydedd, egni a chwarae teg. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at y flwyddyn nesaf!



LLYTHRENNEDD A RHIFEDD TRWY BÊL DROED



Mae disgyblion blynyddoedd 2/3 a 4/5 wedi cael yr anrhydedd o fod yn rhan o Fenter Gymunedol yr Uwch Gynghrair Pêl Droed er mwyn datblygu Llythrennedd a Rhifedd trwy bêl droed. Mae £600,000 o bunnoedd wedi ei neilltuo ar gyfer y Fenter rhwng Abertawe a Chaerdydd ac rydym wedi

cael y fraint o fod yn y cylch cyntaf o ysgolion i elwa. Jonathan Truelove oedd arweinydd y fenter yn ein hysgol a fynte'n medru'n harwain trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar ddiwedd cyfnod o 6 wythnos derbyniodd yr ysgol nifer o grysau'r Elyrch ac ar ôl raffl roedd nifer fawr o blant hapus iawn yn yr ysgol!

YMWELIAD Â DIAFOLIAID CAERDYDD A'R ATHROFA CHWARAEON



Fel ran o waith y tymor aeth blynyddoedd 2/3 a 4/5 i Gaerdydd er mwyn cael y profiad o wyllo Diafoliaid Caerdydd yn ymarfer eu sgiliau sglefrio a hoci iâ cyn cynnal sesiwn holi ac ateb gyda Mac Faulkner, capten y tîm. Cafodd y disgyblion groeso cynnes gan Jamie Elsom, ein hebryngwr, ac aelodau o'r garfan, a oedd yn fodlon trafod a dangos eu gwisgoedd ac offer. Aethom yn ein blaenau wedyn i gyfarfod â Brian Davies, Chef du Maison Tîm Cymru ar gyfer Gemau'r Gymanwlad 2014. Roedd yn wych cael taith o amgylch yr Athrofa Chwaraeon a chael cyfarfod ag Aled Davies, enillydd y fedal aur yn y ddisgen yng Ngemau Paralympaidd Llundain a mewnwleidiad i waith Brian ar gyfer y Gemau nesaf. Diolch yn fawr am y croeso ac am eich amser.



MARIE CURIE

Dros y misoedd diwethaf mae Mrs Evans wedi sicrhau bod y disgyblion wedi cymryd sylw a diddordeb yn Elusen Marie Curie. Mae Meabh o flwyddyn 5 wedi cymryd y cyfrifoldeb o ddyfrhau'r Cennin Pedr, planhigion sydd wedi eu cartrefi yn y tŷ gwydr. Mae Meabh hefyd wedi mesur y tyfiant yn wythnosol. O ganlyniad i'w holl waith, erbyn diwedd hanner tymor Chwefror mae hi wedi sicrhau y bydd yna blanhigyn i bob plentyn yn yr ysgol fynd adref ag ef am gyfraniad bach tuag at yr elusen. Da iawn i ti Meabh am dy holl waith!

CARDEN SANTES DWYNWEN Y FENTER

Llongyfarchiadau i Maddy Davies, Blwyddyn 2, am ennill cystadleuaeth y Fenter Iaith gyda'i chynllun ar gyfer carden diwrnod Santes Dwynwen. Diolch yn fawr iawn i'r Fenter am gynnal y gystadleuaeth yn flynyddol ac am ddarparu gwobr hyfryd ar gyfer yr enillydd

YSGOL GYNRADD PONTARDAWE

CAE CHWARAE

Fel y gwelwch, mae'r gwaith wedi dod i ben. Diolch o galon i Mr. Damien a Mrs. Claire Evans (Rhos Meadow Fish Bar) am ddarparu'r pyst rygbi ac i Mr. Jonathan a Mrs. Nusha Evans (Bull-Shirt Printing) am noddi'r crysau pêl droed newydd. Gobeithiwn am wellhad yn y tywydd fel y gallwn wneud defnydd ohonynt!



FFERM FFOLI

Ar ddydd Iau, 30ain o Ionawr, cawsom ymweliad diddorol gan aelod o staff Fferm Ffoli. Daeth yr ymwelydd ag amrywiaeth o anifeiliaid i'r ysgol i ddisbarth y meithrin a'r derbyn, a phwrpas yr ymweliad oedd i'n hannog i ddefnyddio ein synhwyrau wrth drin a thrafod anifeiliaid. Cawsom ddiwrnod i'r Brenin! Rydym yn mwynhau'r thema Sŵ Bach yn fawr iawn.



LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Ella Mai Davies a Ruby May Allen am ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth parau gymnasteg yng Nghystadleuaeth Gymnasteg yr Urdd yn ddiweddar a phob lwc yn y Rownd Derfynol yn Aberystwyth. Llongyfarchiadau hefyd i Ruby May am ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth gymnasteg unigol.

Llongyfarchiadau mawr i'r nofwyr, Amelia Watts, Lowri Spanner, Isabelle Williams ac Ella Mai Davies am eu perfformiad arbennig yn rownd derfynol Gala Nofio'r Urdd yng

Nghaerdydd ddiwedd Ionawr. Mewn ras gystadleuol iawn, roeddent yn bedwerydd dros Gymru gyfan. Arbennig!

PC KEN BOWEN

Daeth PC Ken Bowen i ymweld â ni ar ddydd Mercher, 12 Chwefror. Neges y wers oedd i ffonio 999 pan fod argyfwng. Cafodd y plant gyfle i wisgo fel plismon a phlismones o'u dewis. Diolch yn fawr unwaith eto i PC Ken Bowen.



YSGOL GYNRADD FELINDRE

Bu Adran y Babanod yn fwrwm o weithgaredd y mis hwn wrth iddynt barhau â'u hastudiaethau ar thema 'Hapusrwydd'. Cynhaliwyd wythnos o weithgareddau'n seiliedig ar bencampwriaeth y Chwe Gwlad lle cafodd y plant gyfle i ddysgu am y gwledydd hyn a blasu bwydydd nodweddiadol y gwledydd hynny. Aethant hefyd ar ymweliad â Chanolfan Hamdden Abertawe a'r sinema. Rhaid diolch i Mrs Jane Hope, mam-gu Cynan, am roi o'i hamser i arwain sesiynau coginio gyda'r plant.



Gan eu bod yn astudio Organau a Drachtau yr hanner tymor hwn bu'r ysgol yn ddigon ffodus i fedru gwahodd rhieni sawl disgybl i ddod i annerch plant yr Adran lau a rhannu eu harbenigedd gyda'r plant am feysydd perthnasol. Cafodd y plant brynhawn difyr dros ben yng nghwmni John a Suzanne Wallace, ill dau'n gweithio ym maes iechyd a ffitrwydd yn dysgu am effaith ymarfer corff ar yr organau gan ddefnyddio tecynnau i fesur curiad y galon, pwysau'r gwaed ac yn y blaen. Yn ogystal, daeth mam Mili ac Oliver Ruthven i siarad â'r plant am ei phrofiadau fel ymwelydd iechyd. Cafwyd hefyd, fore cofiadwy yng nghwmni Mrs Meleri Williams, gwraig Mr Williams

ein Dirprwy Bennaeth, a ddaeth i'r ysgol i sôn am ei gwaith diiddorol fel fferylydd ac i arwain gweithdy gwneud sebon.

Cafodd plant yr lau ddiwrnod i'r brenin yn Techniquet lle cawsant ddarlith am swyddogaeth organau'r corff a threuliwyd gweddill y diwrnod yn rhoi cynnig ar y gwahanol arbrofion.

Cafodd pob un o'r disgyblion gyfle i ymuno yn nathliadau Blwyddyn Newydd Tsieineaidd yr ysgol. Ymhlith y gweithgareddau a ddarparwyd roedd gwersi iaith, hanesion diwylliannol, caligrافي a thorri papur.

YSGOL GYFUN YSTALYFERA


PENCAMPWYR FFORMIWLA UN!

Llongyfarchiadau i dîmau Fformiwla Un yr ysgol ar gystadlu mor arbennig eto eleni. Enillodd tîm Blwyddyn 8 wobwr am y car cyflymaf (0.797 eiliad) a chyntaf yn y gystadleuaeth 'Bloodhound Class'. Byddant nawr yn cynrychioli'r ysgol / rhanbarth yn y rownd derfynol yn Birmingham! Llongyfarchiadau i dîm Blwyddyn 8 sef Alex Long, Jack Fellows ac Ellis Bennett ac i dîm Blwyddyn 10, sef Angharad Morgan, Angharad Langdon, Eleri Davies, Ffion Rees, Hannah Thomas a Rachel Harris.



BEN YN ANNOG PAWB I DDARLLEN

Mae'r ysgol yn falch iawn o weld ein cyn-ddisgybl, amddiffynnwr yr Elyrch, Ben Davies, yn hybu diwrnod cenedlaethol y llyfr gyda llun ohono'n darllen "Y Bancsi Bach". Gwych!



NIA AR Y BRIG!

Llongyfarchiadau i Nia Williams, Blwyddyn 9, ar ennill cystadleuaeth rotari Gorllewin Morgannwg am yr offerynwraig orau. Bydd yn cystadlu yng nghystadleuaeth De Cymru yng Nglyn Ebwy ym mis Mawrth. Llongyfarchiadau hefyd i Osian Jones, Euros Morgan a Megan Ware am ragori wrth gystadlu yn y rownd hon!



SGLEFRIO I LWYDDIANT!

Llongyfarchiadau i Sally Davies (Blwyddyn 7) ar ddod yn ail mewn cystadleuaeth sglefrïo iâ yng Nghaerdydd yn ddiweddar gan ennill medal a chwpan hardd. Enillodd Sally yng nghategori Naid, Sglefrïo a Throelli – da iawn til!



REUBEN Y RHEDWR!

Llongyfarchiadau i Reuben Colwill, Blwyddyn 7, ar ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth rhedeg traws gwlad y sir, cyn cynrychioli'r sir mewn traws gwlad cenedlaethol yn Aberhonddu. Gwych Reuben!

YSTALYFERA 52 COLEG CNPT 3

Llongyfarchiadau i Dîm XV Rygbi 1af yr ysgol ar fuddugoliaeth yn erbyn Coleg Castell-nedd. Coleg Sir Gâr sy'n aros amdanom yn y gêm nesaf!



DIGWYDDIADUR CWM TAWE

8 Mawrth: Sesiwn Werin Gymraeg!

Tafarn y Shepherds, Felindre, o 2.y.h. ymlaen. Mynediad am ddim! Croeso i bawb! Elw er budd elusen LATCH, yr elusen gynahliaeth cancr plant.

8 Mawrth: Sesiynau **Cymraeg i'ch Babi** gan PartnerIAITH Aman Tawe a TWF yn parhau yn **Llyfrgell Ystradgynlais rhwng 10.30 a 11.30 y.b.**

8 Mawrth: **Noson Lawen yng nghwmni Noel James, Rhian Madame Rygbi a Chôr Meibion Dyffryn Aman** yn Neuadd Cwmllynfell am 7:00 y.h. Tocynnau ar gael o Neuadd Cwmllynfell a Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot. £5 y pen.

12 Mawrth: **Teyrnged i Cyril Ifold**, Glowr ac Arlunydd. Yn Neuadd Les, Ystradgynlias am 7.00yh.

14 Mawrth: **Cinio Grawys** yn Eglwys St Michael, Clydach 12.00-1.00y.h.

21 Mawrth: **Cinio Grawys** dan ofal y Wesle yng Nghapel y Nant, Clydach, 12.00-1.00y.h.

21 Mawrth: **Gigs y Gwach!** Yn cyflwyno **Al Lewis a'r Band**. Tafarn y Gwachel, Pontardawe. 9y.h. Mynediad am ddim. Mwy o wybodaeth: 01792 864949.

25 Mawrth: PartnerIAITH Aman Tawe a TWF yn cyflwyno **Cymraeg i'ch Babi**. Byddwn yn canu caneuon, darllen storïau a gwneud crefftau gyda'ch babi. Croeso cynnes iawn i reini a'u Babis Bach! Dysgwyr/Di-Gymraeg a Rhugl! Dewch draw i **HWB, Ystalyfera rhwng 1.30 - 2.30yp**. Mae'n hwyl, yn rhad ac am ddim, ac mae'r babis yn gadael wedi blino'n lân!

28 Mawrth: **Cinio Grawys** dan ofal Eglwys St Benedict yng Nghapel y Nant, Clydach, 12.00-1.00y.h.

1 Ebrill: **Cyngerdd Mawreddog** yng Nghapel y Wern, Ystalyfera am 6:30yh.

Croeso i chi anfon manylion eich digwyddiadau at y Llais er mwyn iddynt gael eu rhestru yma a chael sylw eich cyddarllenwyr. Cysyllter â Gwenno Ffrancon ar 01792 842062 neu gwenno_ffrancon@hotmail.com

A black and white advertisement for S4/C Heart of the Nation. It features a group of diverse people standing in a line. In the top left corner, it says 'S4/C Calon Cenedl. Heart of the Nation'. In the top right corner, it says 'Isdeitlau Subtles'. In the bottom left corner, there are social media icons for Facebook and Twitter. In the bottom right corner, there is a sign that reads: '35 Diwrnod 9.00 Yn dechrau 23 Mawrth Cofit, cyflwyniad, a ffordd sŵd o anheulon. Cyfres ddiwedd newydd lle mae pob diwrnod yn cyflit. #35diwrnod s4c.co.uk'.

TUDALEN I'R PLANT

NEWID EIN MEDDWL AM BLASTIG

Gofynnwch i rywun yn eich teulu chi sydd dros 65 sôn am siopa pan oedden nhw'n ifanc. Mae'n nhw'n siŵr o ddweud - dim archfarchnadoedd, dim cardiau credyd, dim llawer o ddewis, llawer o siopau bach, dim poteli plastig na bagiau plastig. Roedd y poteli yn wydr. Ar ôl gorffen eich lemonêd roeddech chi'n cymryd eich potel yn ôl i'r siop. Roedd bwyd yn cael ei lapio mewn bagiau papur gwyn a brown ac weithiau papur newydd. Roeddech chi'n cymryd eich bag siopa eich hun. Weithiau os oeddech chi'n prynu tatws a llysiau eraill roedd y siopwr yn pwyso faint roeddech chi eisïau ac yn eu tipio nhw i waelod eich bag. (A doedd llysïau ddim wedi sgrwbio'n lân fel heddiw.)

Ac wedyn daeth **PLASTIG**.

Bagiau plastig, poteli plastig, papur plastig ar taffis a phob math o bacedi plastig. Syniad da roedd pawb yn meddwl. Roedd y plastig yn cadw'r bwyd yn lân ac yn ffres ac yn fwy iach.



Ond ar ôl blynyddoedd o blastig dechreuodd rhai pobl dweud - "Arhoswch am funud". Y broblem efo plastig ydy ei fod o ddim yn pydru. Mae sbwriel plastig yn aros ymhobman - ar ochrau'r ffyrdd ac yn y caeau, mae'n glynnu at y gwrychoedd yn y wlad, mae'n clogio afonydd ac yn difetha traethau. Gyda'r llanw mae'n cael ei gario allan i môr ac i draethau eraill.



Edrychwch ar y llanast ar y traeth yma. Mae'n hyll ac yn ofnadwy.

Mae plastig mor gyfleus mae'n rhaid ei ddefnyddio. **OND mae'n bwysig peidio â gordefnyddio.** Felly erbyn heddiw rydyn ni'n ceisio torri lawr ar bagiau a'r pacedi plastig.



Dyma Rebecca Hosking sy'n wraig camera i'r BBC. Yn 2006 aeth hi a'r tîm ffilmio i Ynys Midway yn y Pasiffig i wneud rhaglen natur. Cafodd hi sioc a braw i weld cannoedd o adar Albatross yn gorwedd wedi marw ar y traeth. Roedden nhw wedi llyncu plastig - pob math o bethau, er enghraifft tegannau, bagiau siopa, brwsys dannedd, cribau, topiau poteli. Yn nes ymlaen gwelodd hi forfilod, morloi a chrwbanoed y môr yn marw neu wedi marw o achos plastig. Ar ôl gorffen ffilmio daeth Rebecca yn ôl i'w chartref ym Modbury, Dyfnaint. Roedd hi eisïau gwneud rhywbeth. "Rhaid i ni ddefnyddio llai o plastig" meddai hi. Felly perswadiodd hi bob un o'r 43 o siopau yn y dref i beidio defnyddio bagiau plastig o gwbl.

Dechreuodd pobl mewn llyfnydd eraill wrando ar Rebecca. Iwerddon oedd y wlad gyntaf lle roedd rhaid talu am fag plastig. Nawr rydym ni yma yng Nghymru yn talu 5c. am bob un.

Os ydyn ni'n gorfod talu bob tro, byddwn ni'n defnyddio llai ohonyn nhw ac yn prynu bag siopa iawn yn lle.